# Gwirfoddoli
## Strategaeth ar gyfer Sir Benfro
## 2025-2030








**Ein gweledigaeth yw bod pawb yn Sir Benfro yn cael eu hysbrydoli a'u cefnogi i wirfoddoli eu hamser a'u sgiliau yn eu cymuned.**



# Cefnogwyr

Pembrokeshire FRAME Supporting local people

Cilrath Acre

CARE cwm arian renewable energy

cadwch gymru'n daclus keep wales tidy

NEWPORT MEMORIAL HALL CONNECTING OUR COMMUNITY SINCE 1923

ASD Family Help Autism & neurodiversity - embracing differences

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

PEMBROKE DOCK HERITAGE CENTRE

SPPOT Supporting People & Pets Through Opportunity and Training A COMMUNITY INTEREST COMPANY

PACTO Gyda chi ar eich taith With you on your journey

Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council

PATCH Pembrokeshire Action To Combat Hardship

On Your Parenting Journey

PLANT DEWI Lle mae Teuluoedd yn Bwysig Where Families Matter

Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

SANDY BEAR

REDBERTH CROFT

SEA TRUST WALES

RN I:D

STACKPOLE WALLED GARDENS

TENBY MUSEUM & ART GALLERY Registered Charity Number: 1169435

Tŷ Shalom Shalom House

paulsartori HOSPICE AT HOME

The Queens Hall EST. 1958

VC GALLERY

WEST WALES RIVERS TRUST YMDDIRIEDOLAETH AFONYDD GORLLEWIN CYMRU

bluestone NATIONAL PARK RESORT

PAVS

Gwirfoddoli dros Sir Benfro
Volunteering for Pembrokeshire

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Crynodeb Gweithredol | 5 |
| Cyflwyniad | 8 |
| Gwirfoddoli ... yn Sir Benfro | 10 |
| Gwirfoddoli ... yn Newid | 11 |
| Gwirfoddoli ... Partneriaid Allweddol | 13 |
| Gwirfoddoli ... ein Gweledigaeth | 16 |
| Gwirfoddoli ... ein Dull | 18 |
| Gwirfoddoli ... ein Hegwyddorion | 20 |
| Gwirfoddoli ... beth nesaf? | 22 |




# Rhagair

## Mae'r Strategaeth Gwirfoddoli ar gyfer Sir Benfro wedi'i datblygu diolch i'r nifer fawr o unigolion a sefydliadau sydd wedi cyfrannu eu hamser a'u harbenigedd.

Mae gwirfoddolwyr, sefydliadau'r sector gwirfoddol, aelodau o Rwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Sir Benfro (PVON), aelodau o gynghorau tref a chymuned, cymunedau lleol, Cyngor Sir Penfro ac aelodau eraill o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ynghyd â llawer o rai eraill wedi llywio'r Strategaeth. Gyda'i gilydd, maent yn cyfrannu at yr ecosystem wirfoddoli yn Sir Benfro: mae pob un ohonynt yn chwarae rhan unigryw ond mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn bwysig i lwyddiant y Strategaeth. Hoffem gydnabod y mewnbwn gan Rob Jackson Consulting Ltd ac aelodau is-grŵp gwirfoddoli Cryfhau Cymunedau Sir Benfro BGC, am ddarparu gwybodaeth a chyngor.

Roedd pawb a gymerodd ran yn rhannu eu hamser, eu harbenigedd, a'u profiad bywyd gydag angerdd a brwdfrydedd. Mae'r Strategaeth yn dyst i bŵer cydweithio tuag at nod cyffredin ac yn tynnu sylw at y gwerth sy'n cael ei roi ar wirfoddoli yn Sir Benfro.



"Gwirfoddoli yw asgwrn cefn ein cymunedau. Nid cynllun yn unig yw'r Strategaeth Gwirfoddoli ar gyfer Sir Benfro, mae'n addewid i rymuso, i gynnwys ac i ysbrydoli. Gyda'n gilydd, rydym yn creu cyfleoedd - fel bod unigolion, grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol a chyflogwyr - yn gwneud rhywbeth arbennig. Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yn falch iawn o gefnogi'r Strategaeth i godi proffil gwirfoddoli a manteision cymryd rhan. Rydym yn edrych ymlaen at annog a galluogi pobl o bob oed i fod yn wirfoddolwyr gweithredol yn eu cymunedau - ymunwch â ni!"

Jess Bickerton, Prif Swyddog Gweithredol PAVS

"Mae gwirfoddoli'n rhan annatod o unrhyw gymuned iach, ac rydym yn falch o gefnogi'r Strategaeth hon a'r budd y mae'r mentrau hyn yn ei ddarparu. Rydym yn gobeithio gweld llawer mwy o staff CSP a phobl ledled y sir yn gwirfoddoli yn y dyfodol ar gyfer achosion da o amgylch Sir Benfro.
Felly gwnewch rywbeth anhygoel – a gwirfoddolwch!"

Y Cynghorydd Jon Harvey,
Arweinydd Cyngor Sir Penfro

"Roedd gwirfoddoli yn gwneud i mi deimlo'n rhan o rywbeth, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n perthyn, fe helpodd fi i wneud ffrindiau pan symudais i dref newydd."

Gwirfoddolwr Sir Benfro

# Crynodeb Gweithredol




Ydych chi am fod yn wirfoddolwr?

Ydych chi'n dibynnu ar wirfoddolwyr?

Ydych chi'n cefnogi gwirfoddolwyr?

Ydych chi am ddechrau cynnwys gwirfoddolwyr?

Ydych chi'n wirfoddolwr?




**Os felly, mae'r Strategaeth hon ar eich cyfer chi.**

# Mae gwirfoddoli yn chwarae rhan hanfodol yn Sir Benfro, gan gryfhau cymunedau, meithrin gwydnwch, a gwella lles cymdeithasol.

Nod y Strategaeth Gwirfoddoli hon (2025-2030) yw cefnogi ac ysbrydoli unigolion, sefydliadau a busnesau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli ystyrlon sydd o fudd i wirfoddolwyr, yr ecosystem wirfoddoli a'r gymuned ehangach.

Mae'r Strategaeth yn rhagweld Sir Benfro lle mae pawb yn cael eu hysbrydoli a'u cefnogi i wirfoddoli eu hamser a'u sgiliau.
**Er mwyn cyflawni hyn, mae wyth amcan strategol:**

## 1 Ysbryd Cymunedol

Cryfhau ymgysylltiad lleol trwy fentrau dan arweiniad gwirfoddolwyr.

## 2 Gweithio Gyda'n Gilydd

Annog cydweithio ar draws sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

## 3 Gwirfoddoli i Bawb

Sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd.

## 4 Codi'r Safon

Gwella rheolaeth a hyfforddiant gwirfoddolwyr.

## 5 Lledaenu'r Neges

Gwella cyfathrebu ac ymwybyddiaeth.

## 6 Gwneud iddo Ddigwydd

Cynyddu adnoddau a chapasiti.

## 7 Ei Wneud yn Well

Darparu hyfforddiant a dysgu parhaus.

## 8 Gwybod eich bod yn Cyfrif

Cydnabod a dathlu cyfraniadau gwirfoddolwyr.

## Mae'r dirwedd wirfoddoli wedi newid, ac mae'r Strategaeth yn cydnabod bod:

- **Dirywiad mewn gwirfoddoli ymhlith oedolion hŷn a photensial ar gyfer mwy o gyfranogiad ymhlith pobl iau.**
- **Galw am wirfoddoli hyblyg, tymor byr a gwirfoddoli seiliedig ar sgiliau.**
- **Angen i sefydliadau addasu trwy gynnig cyfleoedd amrywiol a chynhwysol.**

## Yn unol â hynny, bydd y Strategaeth yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

**Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr (ESV)**
– annog busnesau, a'u staff, i gymryd rhan mewn gwirfoddoli.

**Gwirfoddoli Digidol ac o Bell**
– ehangu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ar-lein.

**Microwirfoddoli**
– cyfleoedd hyblyg tymor byr.

**Gwirfoddoli Ieuenctid a Theuluoedd**
– ennyn diddordeb cenedlaethau iau a theuluoedd.

**Gwirfoddoli Awyr Agored ac Amgylcheddol**
– cefnogi ymdrechion cadwraeth a lles trwy rolau sy'n seiliedig ar natur.



Bydd y Strategaeth yn cael ei gweithredu trwy bartneriaethau cydweithredol, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, Cyngor Sir Penfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a busnesau. Bydd Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yn chwarae rhan allweddol wrth gydlynu ymdrechion a hyrwyddo arfer gorau.

Bydd fframwaith yn olrhain cynnydd ac yn hyrwyddo effaith gwirfoddoli, a dysgu a rennir yn eang. Bydd y Strategaeth yn addasu i anghenion sy'n dod i'r amlwg wrth sicrhau bod gwirfoddoli yn parhau i fod yn brofiad bywiog, hygyrch a gwerth chweil i bawb.

Mae hon yn alwad i weithredu fel bod gwirfoddolwyr, sefydliadau a busnesau yn dod at ei gilydd, cryfhau cymunedau, a chreu effaith barhaol yn Sir Benfro.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n ymuno â ni!

# Cyflwyniad

Mae'r sector gwirfoddoli yn profi newid sylweddol, wedi'i sbarduno'n bennaf gan Covid a'r argyfwng costau byw dilynol.  Mae'r Strategaeth Gwirfoddoli ar gyfer Sir Benfro yn ceisio adnewyddu ac adfer ein dull ar draws Sir Benfro, gan ystyried y cyd-destun sy'n datblygu ar gyfer gwirfoddoli.  Wrth ddatblygu'r Strategaeth, fe wnaethom ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a sefydliadau - o gymdogion oedd yn helpu yn achlysurol i'r rhai sydd â chyfrifoldebau ffurfiol fel ymddiriedolwyr elusennau.  Fe wnaethom hefyd gynnal sgyrsiau gyda phobl sy'n ymwneud â gwirfoddoli digidol, gwirfoddoli ieuenctid, gwirfoddoli awyr agored a democratiaeth gynrychioliadol (h.y. cynghorwyr tref a chymuned) yn ogystal â chynlluniau gwirfoddoli a gefnogir gan gyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Ar draws ein sir amrywiol – gyda phentrefi gwledig a threfi arfordirol, lle mae amaethyddiaeth, twristiaeth a'r sector ynni yn darparu cyflogaeth sylweddol – mae unigolion a chymunedau yn wynebu cyfleoedd a heriau.  Mae llawer o'r heriau yn debyg ar draws gweddill Cymru a'r Deyrnas Unedig: poblogaeth sy'n heneiddio, ardaloedd o amddifadedd a thlodi, diffyg gweithwyr medrus a thrafnidiaeth.  Ac eto, mae cyfleoedd sylweddol yn Sir Benfro - er enghraifft, o ran diwydiannau sy'n dod i'r amlwg a'r potensial ar gyfer gweithio o bell wedi'i alluogi'n ddigidol.  Yn sail i'r ymdrechion i wneud Sir Benfro yn lle gwych i fyw a gweithio, mae partneriaeth gref rhwng sefydliadau statudol –sy'n cyflogi nifer o bobl eu hunain – megis Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â busnesau'r sector preifat a'r ystod eang o sefydliadau elusennol a chymunedol.  Yn wir, mae'r sector gwirfoddol a chymunedol (y cyfeirir ato'n aml fel y 'trydydd' sector) yn Sir Benfro yn fywiog ac wedi'i sefydlu'n dda, ac mae ganddo enw da, sy'n deillio yn enwedig o'r ymateb i Covid, gan lwyddo i ddiwallu anghenion y gymuned.

Mae PAVS wedi arwain datblygiad y Strategaeth Gwirfoddoli, gyda chefnogaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i sicrhau bod gweithgaredd gwirfoddoli yn Sir Benfro yn cael ei gefnogi a'i arwain gan ddull aml-asiantaeth a ddatblygwyd ar y cyd.  Mae'r gwaith wedi ffurfio rhan o'r Rhaglen Cryfhau Cymunedau ac wedi sicrhau cysylltiadau agos â Chynllun Lles Sir Benfro[1] a Strategaethau Tlodi Sir Benfro[2]. Bydd y BGC, fel rhanddeiliad allweddol, yn helpu i adolygu a monitro gweithrediad y Strategaeth a bydd yn ymdrechu i sicrhau bod y Strategaeth yn cael digon o adnoddau.



Mae'r Strategaeth hon ar gyfer pawb yn Sir Benfro, p'un a ydych chi'n wirfoddolwr, yn sefydliad sy'n cynnwys gwirfoddoli neu'n gyflogwr.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n cael eich ysbrydoli i gymryd rhan, i helpu ac i wneud gwahaniaeth!

[1] Cynllun Lles Sir Benfro - www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/cynllun-lles
[2] Mynd i'r afael â thlodi - www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/prosiectau

# Gwirfoddolwr Ifanc yn Sir Benfro

**Dechreuais wirfoddoli gyda Paul Sartori yn 2010 pan oeddwn i'n 14 oed, yn eu siop fanwerthu yn Arberth. Po hiraf yr oeddwn gyda nhw roeddwn i'n raddol yn cymryd rolau ychwanegol fel codi arian, trefnu pobl mewn digwyddiadau a chefnogi mewn digwyddiadau. Pan es i i'r brifysgol, fe wnes i barhau i wirfoddoli yn ystod y gwyliau, gan helpu pryd/lle'r oedd fy angen.**

Mae gen i Syndrom Hypersymudol Ehlers-Danlos (EDS) sy'n golygu fy mod i'n profi ystod o symptomau a all effeithio ar fy symudedd ac achosi poen. Roedd hyn yn golygu na allwn ymgymryd â rhai o'r tasgau mwy corfforol sy'n gysylltiedig â'm gwirfoddoli. Fodd bynnag, roeddwn i'n gallu ymgymryd â thasgau oedd yn fwy cysylltiedig â'r swyddfa ym Mhencadlys Paul Sartori, fel gweinyddu ac ateb ymholiadau.

Yn ystod pandemig COVID deuthum yn Gadeirydd y grŵp Aelodau Pleidleisio ac rwyf wedi bod yn rhan o lunio adroddiad effaith amgylcheddol ar gyfer yr elusen.

Dechreuais wirfoddoli ar gyfer yr elfen 'gymunedol' o'm Gwobr Efydd Dug Caeredin, ac es ymlaen i gwblhau fy Ngwobr Aur hefyd.  Yn 2021 enillais Wobr Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn Sir Benfro (Unigolyn dan 25 oed).

Mae gwirfoddoli wedi cynyddu fy hyder ac rwyf wedi dysgu cymaint o bethau newydd, rwyf wedi datblygu fy CV a gwnaeth fy helpu gyda fy nghais prifysgol. Gallaf ddefnyddio llawer o'r sgiliau rwyf wedi'u datblygu trwy wirfoddoli yn fy ngwaith. Rwy'n hoffi'r addasrwydd a'r hyblygrwydd y mae gwirfoddoli yn ei roi i mi i roi cynnig ar rywbeth gwahanol.

Mae wedi rhoi cyfle i mi roi cynnig ar bethau newydd a gwthio fy hun mewn amgylchedd diogel. Mae gwirfoddoli yn tynnu fy sylw pan fyddaf yn profi poen ac yn rhoi teimlad i mi na all arian ei brynu – sef gwybod y gallaf roi rhywbeth yn ôl a helpu pobl eraill.

Rwy'n teimlo'n rhan o dîm o gydweithwyr yn ogystal â bod yn rhan o'r gymuned ehangach, ac rwyf wedi cael llawer o hwyl.



# Gwirfoddoli ...yn Sir Benfro

Mae traddodiad hirsefydlog a chyfoethog o wirfoddoli a gweithredu cymunedol yn Sir Benfro.  O lanhau traethau i gyfeillio, o siopau elusen i erddi cymunedol, o gerddwyr cŵn i yrwyr, o fanciau bwyd i godwyr arian, o ddiogelu i gymorth yn ymwneud â hunanladdiad, a llinellau cymorth ffôn ar gyfer grwpiau plant bach, mae cyfoeth o gyfleoedd i wirfoddolwyr ymrwymo eu hamser, eu doniau a'u hegni er budd eu hunain, eu cymuned leol a'r gymdeithas ehangach.

Mae'r sector gwirfoddol yn Sir Benfro yn cynnwys cyfoeth o sefydliadau, yn amrywio o ran maint, daearyddiaeth ac ar draws pob sector.  Mae rhai o'r rhain yn gysylltiedig â sefydliadau rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol sy'n rhoi arweiniad a chefnogaeth ar gyfer gweinyddu a llywodraethiant, mae eraill yn gysylltiedig â rhwydweithiau lleol a gwasanaethau cymorth seilwaith, a rhai yn fwy lleol ac anffurfiol, ac efallai nad ydynt yn gysylltiedig o gwbl.

Ni waeth a ydynt yn glwb chwaraeon neu'n sefydliad ffydd, yn gyngor cymuned neu'n grŵp anabledd, maent yn rhan hanfodol o fywyd Sir Benfro, gan wella ysbryd cymunedol a chydlyniant cymdeithasol.  Mae gwirfoddolwyr yn dod â chyfoeth o sgiliau a phrofiad ac yn helpu sefydliadau i ffynnu.  Maent yn chwarae rhan hanfodol wrth wella ac ymestyn gwasanaethau, llenwi bylchau o ran angen, a chyflwyno elfen ddynol.

O ran gwirfoddolwyr, sy'n rhoi eu hamser o'u gwirfodd, er budd cymunedol neu gyhoeddus ac nad ydynt yn derbyn unrhyw dâl, maent yn datblygu eu sgiliau a'u llwybrau i gyflogaeth, maent yn gwneud ffrindiau ac yn cael ymdeimlad o berthyn, yn ogystal â gwella eu hiechyd a'u lles trwy fod yn weithgar a helpu eraill.  Mae pobl yn aml yn cymryd rhan yn y grwpiau cymunedol hyn trwy'r si ar y stryd neu gysylltiadau personol.

O ran cyflogwyr sy'n gymdeithasol gyfrifol, mae gwella môral a theyrngarwch staff yn asedau allweddol pan fydd staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i wirfoddoli, yn ogystal â gwella gwerth cymdeithasol.




"Mae gwirfoddoli yn llygedyn bach o obaith yn eich bywyd ac rydych chi'n teimlo eich bod chi'n gwneud gwahaniaeth mor enfawr. Heb wirfoddoli, byddai fy mywyd yn llawer mwy gwag, yn dawelach, ac yn dywyllach. Dwi wir yn credu y gall gwirfoddoli roi ymdeimlad i chi eich bod chi'n gwneud rhywbeth gwerth chweil ac yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o gyflawniad."

Gwirfoddolwr Sir Benfro

# Mae Gwirfoddoli ...yn Newid






**Mae data swyddogol [3] yn dangos bod tua 16% o'r boblogaeth yn ymgymryd â rhyw fath o wirfoddoli** – o leiaf unwaith y mis, gydag 8% o'r boblogaeth (gwirfoddolwyr hŷn wedi ymddeol yn draddodiadol) yn darparu hanner yr oriau gwirfoddoli.[4]

**Fodd bynnag, bu gostyngiad cyffredinol ers 2013/14 pan wnaeth tua 27% wirfoddoli** o leiaf unwaith y mis.

## Pwy sy'n gwirfoddoli?

- Pobl Dan 35 oed ↗
- Pobl Dros 55 oed →
- Pobl Dros 65 oed ↘

### Data gan nfpResearch


Mae gwirfoddoli'n tyfu ymhlith y rhai dan 35, ac mae gwirfoddoli lleihau fwyaf ymhlith y rhai dros 55 oed. Yn benodol, ymhlith y rhai dros 65 oed mae gwirfoddoli'n gostwng gyflymaf... I'r rhai dros 65 oed, roedd y ffigur yn 28% yn 2012 ac yn 17% yn 2024.

## Pwy sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?

Nododd canfyddiadau ymchwil Gwirfoddoli ar gyfer Sir Benfro yn 2021 hefyd fod nifer o grwpiau allweddol yn ymddangos fe eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol yn yr ymchwil ar wirfoddoli ffurfiol.



Mae **dynion** yn aml yn cymryd rhan mewn rhedeg clybiau chwaraeon amatur, grwpiau diwylliannol a mentrau gwledig neu amaethyddol, ac fel ysgogwyr gwirfoddoli ond roeddent yn llai amlwg mewn rolau gwirfoddoli eraill.




Mae **gwirfoddolwyr ifanc** yn aml yn cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon, neu grwpiau aelodaeth fel Clybiau Ffermwyr Ifanc, Y Sgowtiaid a'r Geids, Aelwyd yr Urdd a Gwobrau Dug Caeredin.  Mae rhai yn ymgymryd â rolau gwirfoddoli yn ogystal â'u gweithgareddau fel aelodau.



Gall **pobl sy'n gweithio** fod yn rhan o gyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau y mae eu plant yn ymwneud â nhw (e.e. clybiau chwaraeon, neu'r wasanaethau mewn llifrai) ond yn gyffredinol maent yn teimlo bod gwaith – ac ymrwymiadau teulu / gofal yn gallu bod yn rhwystr i wirfoddoli.

[3] www.ncvo.org.uk/news-and-insights/news-index/key-findings-from-time-well-spent-2023 yn dyfynnu Arolwg Bywyd Cymunedol, a gyhoeddwyd gan Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) 2021-22.
[4] Yn ôl Sefydliad Cymorth i Elusennau y DU a Chanolfan Ymchwil y Trydydd Sector, mae 31% o boblogaeth oedolion y DU yn darparu bron i 90% o'r oriau gwirfoddoli a roddir, gydag 8% yn darparu dros hanner yr oriau gwirfoddol.



Creodd pandemig Covid dwf sylweddol mewn gwirfoddoli anffurfiol, digymell i ddechrau. Oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo, bu gostyngiad mewn gwirfoddoli ffurfiol, a newid yn y ffordd y gwnaed gwirfoddoli, gyda llawer yn gwirfoddoli gartref, weithiau'n ddigidol. Gwnaeth nifer fawr o wirfoddolwyr hirdymor rhoi'r gorau i'w hymrwymiadau gwirfoddoli (yn aml am resymau sy'n gysylltiedig ag oedran ac iechyd). Ni ddychwelodd llawer pan oedd yn ddiogel gwneud hynny.

Mae'r duedd hon yn cael ei amlygu mewn data swyddogol y DU[5] sy'n dangos bod **gwirfoddoli ffurfiol wedi profi dirywiad cyson er 2020** ac nad yw'r ysbryd cymunedol trwy wirfoddoli anffurfiol yn ystod Covid wedi'i gynnal.

## Beth yw'r rhwystrau i wirfoddoli?

**Ar hyn o bryd, ymrwymiadau gwaith yw'r rhwystr mwyaf i wirfoddoli a '*pethau eraill i'w gwneud yn eu hamser hamdden*' yw'r rhwystr ail fwyaf yr adroddwyd amdano.**

**Mae bwlch rhwng yr hyn y mae pobl ei eisiau o'u gwirfoddoli a'r hyn y mae sefydliadau yn ei gynnig.** Efallai y bydd pobl eisiau aseiniadau gwirfoddol tymor byr sy'n seiliedig ar brosiect, yn hytrach nag ymrwymiadau penagored tymor hir, o leiaf ar y dechrau.

Mae cadw gwirfoddolwyr yn gynyddol ynghylch rhoi hyblygrwydd i wirfoddolwyr newid rolau, neu i gefnogi'r sefydliad/achos mewn ffyrdd eraill, neu gymryd seibiant. Mae hyn yn gofyn am newid sylweddol yn y ffordd y mae sefydliadau yn mynd i'r afael â gwirfoddoli, gan gynnwys recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr a sut mae gwirfoddoli o fewn sefydliad yn cael adnoddau.

Yn Sir Benfro, mae'r ymateb i Covid yn aml yn cael ei nodi fel trobwynt i'r sector gwirfoddol a chymunedol wrth i bobl gamu i'r adwy i gefnogi eu cymdogion a'u cymunedau lleol. Mae'r ymateb hwn, a sbardunodd y sector a dangos y gallu i ddarparu cymorth mewn ffyrdd effeithiol ac ymatebol i bobl mewn angen – ar y cyd â phartneriaeth gref gyda'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd – yn cael ei gydnabod fel un o'r ymdrechion gorau yng Nghymru.

Er gwaethaf hyn, mae'r un tueddiadau a welir o fewn gwirfoddoli ar lefel genedlaethol, Covid a'r argyfwng costau byw dilynol, i'w gweld yma yn Sir Benfro. **Mae PAVS yn adrodd bod gan ddarpar wirfoddolwyr lai o amser i'w rhoi i'w gwirfoddoli.** Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod cyfrifoldebau gofalu, yr angen i aros mewn gwaith cyflogedig a'r newid mewn dyheadau o ran sut mae pobl am dreulio eu hamser (yn enwedig y sawl sydd wedi ymddeol) yn cael eu dyfynnu fel arfer. **O ran pobl ifanc, gall ynysigrwydd cymdeithasol a lles emosiynol gwael fod yn rhwystrau i wirfoddoli, wedi'i gymhlethu gan ddiffyg rolau addas a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus** (hefyd gall cost trafnidiaeth fod yn rhwystr/ rhwystr canfyddedig).

> Felly, mae'n hanfodol i'r Strategaeth adlewyrchu'r newidiadau mewn cymdeithas a'r hyn y mae pobl ei eisiau o'u gwirfoddoli - tra hefyd yn cefnogi'r sefydliadau sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr. Dysgu o'r ysbryd cymunedol yn ystod COVID, meithrin sefydliadau gwirfoddol a chefnogi cyfleusterau cymunedol - buddsoddi mewn dulliau sy'n galluogi gwirfoddolwyr newydd i gamu i'r adwy.

[5] Adroddiadau Time Well Spent a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO)

# Gwirfoddoli... Partneriaid Allweddol



## Mae cynyddu nifer y bobl sy'n gwirfoddoli i gyfleoedd o safon yng Nghymru yn cael ei ystyried yn allweddol ar gyfer lles, unigolion, cymunedau, diwylliant, yr amgylchedd ac i'r genedl.[6]

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) – y rhwydwaith ambarél ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru – yn ystyried gwirfoddoli fel un o'r pedair colofn gweithgaredd allweddol sy'n derbyn buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. Mae TSSW yn darparu ystod gynhwysfawr o adnoddau dysgu a gwybodaeth ddigidol am ddim trwy'r **Hwb Gwybodaeth**, yn ogystal â chynnal gwefan **Gwirfoddoli Cymru**.

Yn Sir Benfro, gall sefydliadau'r sector gwirfoddol gael mynediad at gymorth ac arweiniad gan y cyngor gwirfoddol sirol, **PAVS**, sy'n cynnal y **Ganolfan Wirfoddoli**. Mae'r Ganolfan Wirfoddoli yn paru darpar wirfoddolwyr â sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn ogystal â chynnig hyfforddiant a chefnogaeth i sefydliadau. Gall y Ganolfan Wirfoddoli hefyd ddarparu cefnogaeth ar arfer da mewn gwirfoddoli, gan gynnwys recriwtio, cefnogi a rheoli gwirfoddolwyr. Mae hefyd yn hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau **PVON**, sy'n darparu llwyfan i Reolwyr Gwirfoddolwyr rannu gwybodaeth, rhwydweithio, cefnogi ei gilydd a chlywed gan siaradwyr gwadd. Yn yr un modd, mae **Hwb Cymunedol Sir Benfro** a'r **Cysylltwyr Cymunedol** yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo gwirfoddoli ar lefel gymunedol ac annog cyfranogiad cymunedol – ac maent hefyd wedi'u lleoli yn PAVS. Rydym yn amcangyfrif bod dros 700 o sefydliadau'r sector gwirfoddol yn Sir Benfro – y mae gan bob un ohonynt ran bwysig o fewn yr ecosystem wirfoddoli.

Ar lefel gymunedol, mae'r **10 Cyngor Tref a'r 67 Cyngor Cymuned** yn chwarae rhan hanfodol wrth annog a chefnogi gweithgarwch gwirfoddol. Fel haen gyntaf llywodraeth a democratiaeth, gall cynghorau tref a chynghorau cymuned fod yn gysylltiedig â'u cymunedau ac ymateb iddynt.

**Mae fforymau a chymdeithasau cymunedol**, lle maent yn bodoli, hefyd yn chwarae rhan wrth ddod â'u cymuned at ei gilydd ar gyfer sgyrsiau am eu dyfodol, yn aml ar y cyd â chynghorau tref a chynghorau cymunedol.

Mae gan y **sector cyhoeddus** ran allweddol, fel partneriaid yn y Strategaeth ond hefyd fel cefnogwyr gweithgareddau cymunedol (ac o bosibl hyd yn oed fel comisiynwyr / cyllidwyr). Mae gwasanaethau cyhoeddus a'u cwsmeriaid yn elwa o gynnwys gwirfoddolwyr i wella'r ddarpariaeth. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn elwa gan eu bod yn gallu cael mynediad at rolau a allai eu cefnogi yn eu dyheadau gyrfaol yn y dyfodol. Fel cyflogwyr nifer o bobl, mae nifer o wirfoddolwyr posibl ymhlith staff, sy'n gallu defnyddio sgiliau er budd y gymuned. Mae sefydliadau sydd â pholisi Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr yn elwa o well morâl a theyrngarwch staff yn ogystal â bod y cyhoedd yn meddwl eu bod yn gymdeithasol gyfrifol. Mae gwirfoddoli hefyd yn rhan annatod o fentrau **Cynllun Lles Sir Benfro** a **Sir Benfro Iachach**.




[6] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Tystiolaeth Gwirfoddolwr

"Mae fy amser yn fy lleoliad gwaith a Gwirfoddoli wedi ...cael effaith gadarnhaol ar fy ngyrfa a bywyd fy hun gan fy mod wedi cael cynnig rôl o fewn bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ddiweddar yn fy rôl ddelfrydol o fewn Iechyd Meddwl a Seicoleg a defnyddio fy ngwybodaeth academaidd a'm profiad...

Diolch Yn fawr... am ganiatáu i mi gael cymaint o brofiad... o hyn, gallaf roi yn ôl i'r bwrdd iechyd a'r gymuned ehangach trwy fy rôl newydd."



Ar draws y **sector preifat** mae yna gefnogwyr cryf o'r sector gwirfoddol a chymunedol yn Sir Benfro, gyda llawer o weithgareddau cefnogol trwy grantiau bach, rhoddion (o arian parod ac eitemau) yn ogystal â thrwy raglenni Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr. Gall rhaglenni Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr amrywio, ac fel arfer mae rhywbeth sy'n addas i bob model busnes. Yn amrywio o gynnig oriau staff i wirfoddoli mewn amser gwaith, annog staff i wirfoddoli yn eu hamser eu hunain (gwobrwyo trwy gymhellion staff, neu roddion / arian cyfatebol i'r elusen lle maent yn gwirfoddoli), gwobrau cydnabyddiaeth staff, cynnig diwrnodau tîm / gwirfoddoli mewn tîm sydd o fudd i'r gymuned, cynnig cymorth 'untro' i sefydliadau ar bynciau 'arbenigol' heb dâl (e.e. ysgrifennu polisïau, strategaethau/ cynllunio, cyflogaeth/ AD/ Cyllid ac ati) ac yn y blaen.

"Rydyn ni, yn Tŷ Shalom, yn cefnogi'r Strategaeth hon oherwydd ein bod yn teimlo y bydd yn sicrhau bod gwirfoddoli yn hygyrch i bawb; tra hefyd yn gwerthfawrogi'r rôl hanfodol y mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae yn ein helusen. Bydd yn annog cwmnïau ac elusennau i gydnabod, datblygu a gwobrwyo eu gwirfoddolwyr, waeth beth yw maint y sefydliad. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwirfoddoli yn ysbrydoledig, yn gynhwysol ac yn fythgofiadwy i'r bobl anhygoel sy'n cadw ein cymunedau yn ffynnu!"

**Sam Wilson-Croft,**
**Rheolwr Busnes Hosbis Sir Benfro yn Tŷ Shalom**

# South Hook LNG

**Mae South Hook LNG yn hyrwyddo Rhaglen Ymgysylltu â'r Gymuned weithredol, gyda Chronfa Gymunedol seiliedig ar gais y Cwmni wedi cael ei chefnogi gan PAVS er 2014. Mae hwn bellach yn fodel sefydledig ac mae wedi cael ei fabwysiadu gan fusnesau lleol eraill. Yn ogystal â bod dros £500,000 wedi'i gyfrannu at y gymuned leol, mae sefydliadau cymunedol wedi denu £400,000 arall, o ganlyniad i'r rhoddion a wnaed gan South Hook. Mae mwy na 200,000 o bobl ledled Sir Benfro wedi elwa o'r arian drwy ystod o fentrau.**

Fel rhan o Raglen Ymgysylltu â'r Gymuned South Hook, mae staff yn cael eu hannog i wirfoddoli gyda mentrau cymunedol, clybiau a digwyddiadau sydd ag ystyr penodol iddyn nhw – gyda'r sefydliad wedyn yn cael rhodd ariannol gan South Hook i gydnabod yr oriau gwirfoddoli. Mae'r Cwmni hefyd wedi cynnal 'Diwrnodau Cymunedol' sy'n rhoi cyfle i staff brofi gwaith amhrisiadwy sector gwirfoddol Sir Benfro. Mae cymryd rhan mewn Diwrnodau Cymunedol wedi bod mor ysbrydoledig fel bod llawer o staff wedi parhau i wirfoddoli yn eu hamser eu hunain.

Er 2019 mae South Hook LNG wedi cefnogi Gwobrau Gwirfoddoli Sir Benfro, i gydnabod a dathlu'r effaith y mae gwirfoddolwyr yn ei chael ar gymunedau yn Sir Benfro ac arnyn nhw eu hunain. Yn ogystal, maent wedi cefnogi'r sector gwirfoddol i arddangos yr hyn y mae'n ei gynnig, drwy Ffeiriau Gwirfoddoli a'r Parth Cymunedol yn Sioe Sir Benfro.



# Gwirfoddoli... ein Gweledigaeth



Gan gydnabod y sylfaen gadarn yn Sir Benfro a'r ymrwymiad i arfer da mewn gwirfoddoli, rydym am gyflawni twf yn nifer y gwirfoddolwyr sy'n cyfrannu'n gadarnhaol ac yn gyson at ddatblygu eu cymunedau.

Felly, ein gweledigaeth ar gyfer gwirfoddoli yn Sir Benfro yw dod ag egni a momentwm i sicrhau:

## Bod pawb yn Sir Benfro yn cael eu hysbrydoli a'u cefnogi i wirfoddoli eu hamser a'u sgiliau yn eu cymuned.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, rydym wedi nodi **wyth amcan strategol** a fydd yn ein galluogi i newid ein dull o wirfoddoli.

1 

**Ysbryd Cymunedol:** Meithrin ysbryd cymunedol a datblygu gwydnwch. Mae ein cymunedau'n cynnal neuaddau pentref a chaeau chwarae, clybiau, cymdeithasau a mannau addoli lle mae mentrau dan arweiniad gwirfoddolwyr a'r gymuned wrth wraidd bywyd Sir Benfro. Mae angen i ni gefnogi cyfleoedd gwirfoddoli cyfredol a newydd dan arweiniad y gymuned, gan gynnwys trwy arweinyddiaeth Cynghorau Tref a Chymuned.

2 

**Gweithio Gyda'n Gilydd:** Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Strategaeth wedi'i hategu gan gred a rennir mai partneriaeth leol, gyda phobl a chymunedau lleol, gyda chefnogaeth seilwaith galluogi ac adnoddau angenrheidiol, yw'r ffordd orau o gryfhau cymunedau.

3 

**Gwirfoddoli i Bawb:** Gwirfoddoli cynhwysol a hygyrch. Gall gwirfoddoli gynyddu cynhwysiant cymdeithasol a lles, ac ni ddylai neb gael ei atal rhag cymryd rhan. Mae gwirfoddoli yn cynyddu cydlyniant cymunedol, yn gwella cyswllt cymdeithasol rhwng gwahanol grwpiau ac yn helpu i frwydro yn erbyn ynysigrwydd a rhaniadau o fewn cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar y rhwystrau i wirfoddoli ac i drin gwirfoddolwyr fel unigolion.

4

**Codi'r Safon:** Cyfleoedd o ansawdd a rheolaeth dda o wirfoddolwyr. Mae datblygu cyfleoedd gwirfoddoli newydd a gwahanol yn hanfodol i ddenu a chadw gwirfoddolwyr. Rydym yn cydnabod bod angen cefnogaeth a hyfforddiant i wirfoddolwyr a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr wrth iddynt addasu i'r cyd-destun sy'n datblygu.

5

**Lledaenu'r Neges:** Cyfathrebu a marchnata. Lledaenu'r neges ar dafod leferydd a chael gwahoddiad personol yw'r ffyrdd mwyaf cyffredin y mae pobl yn darganfod am wirfoddoli. Ochr yn ochr â hyn, mae angen i ni adeiladu ymwybyddiaeth, gwella canfyddiadau o bwysigrwydd, gwerth a gwobrau gwirfoddoli ar gyfer unigolion a bywyd cymunedol.

6

**Gwneud iddo Ddigwydd:** Ychwanegu gwerth at gapasiti ac adnoddau. Trwy weithio gyda'n gilydd a gwneud y defnydd gorau o adnoddau, gallwn ychwanegu gwerth at ein hymdrechion gwirfoddoli. Rydym am adeiladu ar y rhwydweithiau presennol o wirfoddolwyr i rannu syniadau, gwybodaeth, dysgu ac offer, a sicrhau bod arferion gorau yn cael eu mabwysiadu.

7

**Ei Wneud yn Well:** Hyfforddiant a dysgu. Mae cymhwyso sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn ganolog i recriwtio, cadw a gwella profiadau gwirfoddolwyr. Gall gwirfoddoli gynnig llwybrau i gyflogaeth i rai unigolion, tra gall llawer o wirfoddolwyr rannu eu sgiliau a'u profiad ag eraill. Rydym am sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi trwy hyfforddiant a datblygu.

8

**Gwybod eich bod yn Cyfrif:** Cydnabyddiaeth a gwobrwyo. Mae cymhellion gwirfoddoli yn amrywio'n fawr, o helpu neu wneud gwahaniaeth, i fancio amser, tystysgrifau a gwobrau.
Mae dangos gwerthfawrogiad i wirfoddolwyr yn golygu eu bod yn fwy tebygol o aros yn eu rolau. Byddwn yn dathlu eu cyfraniadau ac yn rhannu'r effaith y maent yn ei chael yn Sir Benfro.

> "Mae Cymdeithas Sefydliadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO) yn cefnogi'r Strategaeth Gwirfoddoli ar gyfer Sir Benfro yn llwyr. Gwirfoddolwyr yw'r cynheiliaid i lawer o'n Sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol yn Sir Benfro, o Gydlynwyr i Yrwyr i Ffrindiau Teithio i enwi ond ychydig. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ysbryd cymunedol yn cael ei feithrin, gan godi safonau a sicrhau bod gwirfoddoli ar gael i bawb. Ni allwn ei wneud ar ein pennau ein hunain mwyach. Rhaid i ni ddathlu ein Hyrwyddwyr Cymunedol, gan godi ymwybyddiaeth gyda'n gilydd a chyfathrebu eu cyflawniadau i annog cyfranogiad yn y dyfodol."



**Ady Poole,**
**Rheolwr Cyffredinol PACTO**

# Gwirfoddoli ...ein dull

Rydym yn cydnabod bod angen ystod amrywiol a deinamig o gyfleoedd gwirfoddoli sy'n berthnasol i fywydau pobl, ac yn ymateb i lefel yr angen ledled Sir Benfro. Rydym am wneud gwirfoddoli ar gael ac yn hygyrch i bawb. Rydym wedi nodi rhai meysydd o weithgaredd gwirfoddoli sy'n haeddu sylw arbennig gan eu bod yn hawdd eu mabwysiadu ac yn gallu apelio at wirfoddolwyr newydd neu wahanol.



Mae **Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr** yn galluogi busnesau a sefydliadau i gynyddu eu heffaith yn y gymuned trwy annog eu staff i wirfoddoli. Gall y Ganolfan Wirfoddoli gefnogi'r rhai sy'n sefydlu cynllun Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr a gall hefyd ddarparu gwasanaeth cyfatebol ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli mewn tîm.



Profodd **gwirfoddoli digidol, rhithwir neu o bell** i fod yn ffordd bwerus o leihau ynysigrwydd cymdeithasol yn ystod Covid. Mae'r mathau hyn o gyfleoedd yn aml yn addas i'r rhai sydd â llai o symudedd, nad ydynt am wirfoddoli mewn lleoliad cymunedol, neu'n ceisio hyblygrwydd i wirfoddoli ochr yn ochr ag ymrwymiadau eraill. Mae angen i ni wneud mwy i hyrwyddo'r ffordd hon o wirfoddoli, er enghraifft, trwy ein Cysylltwyr Cymunedol a all gefnogi pobl i fynd ar-lein i wirfoddoli trwy'r cynllun benthyciadau tabled.



Mae **Microwirfoddoli** yn ffordd ystwyth i sefydliadau gynnig cyfleoedd gwirfoddoli untro neu achlysurol sy'n apelio at bobl â bywydau prysur. Gall gwirfoddolwyr â digon o sgiliau ond dim digon o amser gymryd rhan yn gyflym, heb rwystrau, ar sail tymor byr neu ad hoc.



Mae **gwirfoddoli teuluol** yn cynyddu mewn poblogrwydd, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae manteision gwirfoddoli rhwng cenedlaethau yn enfawr, ond ychydig o sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd o'r fath. Byddwn yn creu taflen wybodaeth gwirfoddoli ar gyfer teuluoedd i annog grwpiau a sefydliadau i ddatblygu opsiynau, a darparu gwybodaeth. Gall diwrnodau hwyl i'r teulu a digwyddiadau arbennig fod yn ffordd wych o gynyddu ymgysylltedd.



Mae **gwirfoddoli ieuenctid** yn hanfodol i ddyfodol gwirfoddoli ac ar gyfer datblygiad personol. Ond mae llawer llai o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan. Mae angen i ni weithio ar chwalu rhai o'r 'chwedlau' a'r camsyniadau ynghylch pam na ellir recriwtio pobl ifanc fel gwirfoddolwyr, yn ogystal â datblygu cyfleoedd allweddol sy'n helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau hanfodol, gwybodaeth a rhinweddau personol, a bod yn rhan o gymuned.



Mae **gwirfoddoli yn yr awyr agored** yn arbenigedd yn Sir Benfro, gydag ystod eang o gyfleoedd gydag elusennau amgylcheddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae monitro bywyd gwyllt, plannu coed, gweithgareddau cadwraeth, glanhau traethau, gwyddoniaeth dinasyddion ac yn y blaen yn caniatáu i wirfoddolwyr ddatblygu sgiliau ymarferol. Mae hyn yn addas iawn ar gyfer gwirfoddoli cynhwysol cefnogol yn ogystal â llwybrau posibl i gyflogaeth. Mae mynediad i fannau gwyrdd a glas â manteision iechyd a lles amlwg, yn ogystal â meithrin cysylltiad â natur.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Y manteision mwyaf mae pobl yn sôn amdanynt yw'r cyfuniad o fod yn yr awyr agored a bod gyda phobl eraill a gwneud ymarfer corff. Nid bod un peth yn bwysicach na'r llall, mae'n gyfuniad o'r tri pheth hyn – dyna gyfrinach gwirfoddoli.



# Gwirfoddoli
# ...ein Hegwyddorion



## Mae'r holl bartneriaid yn ymrwymo i:



### Ysbryd Cymunedol
Meithrin ysbryd cymunedol a datblygu gwydnwch

1. **Deall gwerth rolau gwirfoddoli anffurfiol a ffurfiol** a sut y gellir eu defnyddio i ddenu gwahanol fathau o wirfoddolwyr, cynyddu amrywiaeth y rhai sy'n gwirfoddoli a chefnogi gweithgarwch cymunedol.

2. **Gweithredu gwahanol fathau o weithgareddau gwirfoddoli**, digwyddiadau/ untro, microwirfoddoli, gwirfoddoli teuluol, gwirfoddoli o bell/ar-lein.



### Gweithio Gyda'n Gilydd
Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth

3. **Cefnogi dull newydd Llywodraeth Cymru o wirfoddoli lle mae gwirfoddoli** yn dod yn rhan gryfach fyth o'n hunaniaeth a'n diwylliant yng Nghymru.

4. **Cynnal trafodaethau strategol am y gwahanol ffyrdd o gefnogi a chynnwys gwirfoddolwyr** a fydd yn helpu gyda'u nodau personol – a'n gweledigaeth ar y cyd.

5. **Cael dealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng gwirfoddolwyr a staff.***



### Gwirfoddoli i bawb
Gwirfoddoli cynhwysol, hygyrch a mynd i'r afael â rhwystrau

6. **Cefnogi gwirfoddolwyr i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli** o ddiddordeb iddynt mewn ffordd ystyrlon a diogel.

7. **Cael mynediad at hyfforddiant ac arweiniad** gan bartneriaid lleol, ac arbenigwyr.

8. **Cadw at - a hyrwyddo - arfer da ym maes Cydraddoldeb, Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant.**



### Codi'r Safon
Cyfleoedd o ansawdd a rheolaeth dda o wirfoddolwyr

9. **Dilyn arfer gorau wrth recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr** gan gynnwys: dewis, gwirio, sefydlu, hyfforddi, goruchwylio, rheoli rhai sy'n gadael, ad-dalu treuliau, diogelu.

10. **Datblygu polisïau a gweithdrefnau arfer gorau** er mwyn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

## Lledaenu'r Neges
Cyfathrebu a marchnata

**11.** **Hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth mewn gwirfoddoli yn rhagweithiol.**

**12.** **Darparu eglurder ar y mathau o wirfoddoli a'r gwahanol rolau sydd ar gael.**

**13.** **Defnyddio offer rhad ac am ddim cyfredol ar gyfer hyrwyddo**, fel gwefan https://volunteering-wales.net/cy

## Gwneud iddo Ddigwydd
Ychwanegu gwerth at gapasiti ac adnoddau

**14.** **Rhannu arfer gorau, dysgu ac offer cyfredol.**

**15.** **Cael mynediad at rwydweithiau ac arbenigwyr gwirfoddoli** i gael gwybodaeth, cymorth ac arbenigedd ar wirfoddoli.

**16.** **Cydweithio ar brosiectau gwirfoddoli**, a chwilio am adnoddau/cyfleoedd newydd.

## Ei wneud yn Well
Hyfforddiant a dysgu

**17.** **Buddsoddi mewn rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr**, gan sicrhau bod y rhai sy'n cefnogi gwirfoddolwyr yn uniongyrchol yn ymgymryd â hyfforddiant priodol ac yn deall arfer da.

**18.** **Darparu hyfforddiant priodol i wirfoddolwyr** i'w cefnogi yn eu rôl.

**19.** **Cefnogi dull a rennir o hyfforddi gwirfoddolwyr.**

## Gwybod eich bod yn Cyrif
Cydnabyddiaeth a gwobrwyo

**20.** **Rhoi cefnogaeth i wirfoddolwyr a chydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud.**

**21.** **Deall cymhellion gwirfoddolwyr a chofnodi effaith gwirfoddoli** - casglu data o safon am bwy sy'n gwirfoddoli, a'r gwahaniaeth y mae gwirfoddoli yn ei wneud iddyn nhw a chyflenwi gwasanaethau.

**22.** **Ceisio adborth gan wirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn weithredol, ac ymateb i'r adborth** - rhoi cyfleoedd i leisiau gwirfoddolwyr gael eu clywed.

*Cymorth ac arweiniad ychwanegol ar gael yn Siarter TUC Cymru a CGGC ar gyfer Cryfhau'r Cysylltiadau rhwng Staff Cyflogedig a Gwirfoddolwyr.

# Gwirfoddoli ...beth nesaf?

## Byddwn yn datblygu camau gweithredu ar gyfer pob un o'n meysydd blaenoriaeth, gan greu cynllun gweithredu, a gyda chefnogaeth partneriaid, byddwn yn olrhain ac yn asesu cynnydd.

Rydym am gofnodi effaith gadarnhaol gwirfoddoli – sy'n aml yn cael ei danbrisio neu nad yw'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol. Trwy gyfuniad o fonitro, ymchwil a gwerthuso, byddwn yn casglu data ar weithgareddau gwirfoddolwyr; anghenion y rhai sy'n derbyn cymorth a sut mae'r anghenion hynny'n cael eu diwallu; a'r effaith ar wirfoddolwyr a'r unigolion y maent yn eu cefnogi. Trwy ein partneriaethau, byddwn yn archwilio gan ddefnyddio offer a thechnegau amrywiol i gefnogi hyn (a allai gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Fframwaith Effaith CGGC, Gwerth Cymdeithasol, Techneg Newid Mwyaf Arwyddocaol, Protocol Asesu Effaith Ansoddol a'r Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi).



# Mae Gwirfoddoli...

- yn ymwneud â rhoi eich amser, o'ch gwirfodd a thrwy ddewis
- o fudd cyhoeddus neu gymunedol
- ddim yn cael ei wneud er elw ariannol

yn dda i'ch iechyd

yn gwneud i chi deimlo'n dda

yn eich cysylltu â'ch cymuned

yn gallu eich helpu i ddysgu pethau newydd

yn helpu'r amgylchedd

yn gwneud gwahaniaeth

yn cefnogi pobl ac yn cryfhau cymunedau

yn rhoi hyder i chi

yn gwneud Sir Benfro yn lle gwell

yn eich helpu i gwrdd â phobl



# Gwneud y pethe' bach, gwneud gwahaniaeth mawr

Dylunio Graffeg gan lisadevonald.co.uk



01437 769422

volunteering@pavs.org.uk

PAVS.Volunteering.Pembrokeshire

**www.pavs.org.uk**